# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y 3ydd Medi 2019
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr Ann Tudor, Rowland Jones, Caredig Jones, Dewi Rattray, Dylan Edwards, Meiron Davies, Meic Francis, Ada Evans, John Davies.**

**ABSENOLDEBAU:** Cynhorwyr Richard Davies

Rhoddwyd croeso cynnes i gyfarfod Mis Medi gan y Cadeirydd Rowland Jones.

Rhoddwyd llongyfarch i'r Cylch Feithrin Llanilar ar ei llwyddiant yn ddiweddar gan ennill gwobr Sir am dyfu'r moron mwyaf; Da iawn chi plantos!

Dachraeodd y cyfarfod 8 o'r gloch. Darllenwyd cofnodion Mis Gorfennaf, cynigwyd eu bod yn gywir gan y Cyng. Meic Francis ac fe eiliwyd gan y Cyng. Dewi Rattray.

18/1078 - MATERION YN CODI

1. Mae'r sefyllfa baw ci yn y pentref yn gwaethygu. Ofynnwyd I'r clerc edrych i mewn i'r posibilrwydd o gael mwy o finiau baw cwn wedi eu gosod biniau gan y Cyngor Sir yn y pentref. Hefyd i ofyn iddynt am gyflenwadau o fagiau baw cwn, er mwyn sicrhau eu bod ar gael i aelodau'r cyhoedd.
2. Coedwig Abermad; Gyda diffyg ymateb oddiwrth y Cyng. Sir, ofynnwyd i'r clerc ysgrifennu atynt unwaith eto ofyn am ateb i'r cwestiwn 'pwy sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r goedwig yma'.
3. Ar ôl cyfarfod brys y Cyngor Cymuned ynglŷn â'r soak-away wrth ymyl stad tai Y Gorlan, mae ffens bellach wedi'i gosod i sicrhau nad yw aelodau'r cyhoedd yn mynychu'r ardal yma.
4. Yn anffodus, mae nifer o gwynion wedi dod mewn i'r Cyngor Cymuned ynglŷn â phlant yn creu hafoc yn y pentref. Mae'n achosi consyrn yn enwedig i genhedlaeth hyn y pentref. Nodwyd gan rhai cynghorwyr bod yr unigolion yma yn hysbys i'r heddlu.

18/1079 - LLYTHYRON

1. Hysbys wrth Cyng. Ceredigion ynglŷn â ffordd ar gau - Rhiwfain Llanilar 19.08.2019 - 13.09.2019.
2. Llythyr o'r Cyngor Sir ynglŷn â Chynllun Datblygu Lleol Ceredigion.
3. Copi o adroddiad blynyddol Dafydd Llywelyn, Comisynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-powys.
4. Gwybodaeth wrth y Cyngor Sir ynglŷn â Systwm Bwrcasu Dynamig ar gyfer Gwasanaeth clirio Eira ac unrhyw wasanaeth argyfwng perthnasol eraill.

4\. Nifer o negeseuon Un Llais Cymru a chyflwynwyd gan y Cyng. Meic Francis.

18/1080 - ARIANNOL

Ymddiheiriadau, nid yw'r clerc wedi cyflwyno slip cyflog y mis yma; mi fydd hyn yn cael eu cyflwyno yn cyfarfod mis nesaf.

18/1081 – CYNLLUNIO

Cais rhif: A190434
Ymgeisydd: P Edwards
Y Bwriad: Retention of the existing storage shed to front garden area of dwelling
Nid oes gan y cyngor cymuned wrthwynebiadau ar y cais cynllunio yma. Fe wnaeth y Cyng. Dylan Edwards cynnig ac fe eiliwyd gan y Cyng. Caredig Jones

Cais rhif: A190484
Yngeisydd: Cylch Feithrin Llanilar
Y Bwriad: Erection of extension and minor internal alterations
Fe benderfynwyd cefnogi'r cais yma. Fe gynigwyd gan y Cyng. Dewi Rattray ac fe eiliwyd gan y Cyng.Ann Tudor. Roedd y Cynghorwyr i gyd yn gytûn.

18/1081 - UNRHYW FATER ARALL

1. Diolchwyd i bawb wnaeth helpu yn ystod noson torri'r fynwent; job dda pawb!
2. Ofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at Y Gwasanaeth Ambiwlas i edrych dros y peiriant Di-fib sydd wedi eu lleoli tu allan i'r hen ysgol. Mae angen cofio mae nid tegan yw'r peiriant yma. Falle fydd yn syniad i drefnu sesiwn hyfforddi arall.
3. Nodwyd fod car yn parcio unwaith eto wrth ymyl mynedfa'r mini-roundabout a hefyd reit ar y gornel gyferbyn a'r hen ysgol. Nid yw'r ardaloedd yma yn ddiogel i barcio, gallant achosi damweiniau. Ofynnwyd I'r clerc ysgrifennu at yr adran priffyrdd; gan ofyn am y posibilrwydd o osod llinellau melyn yn yr ardaloedd hyn.
4. Sul y Cofion; Cofiwch y dyddiad 10-11-2019.

Orffenwyd y gyfarfod am 9.10pm